# SL(5)681 – Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Gwneir y Gorchymyn hwn gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a daw i rym ar 23 Rhagfyr 2020.

Mae'r Gorchymyn yn pennu 1 Ebrill 2021 fel y diwrnod y mae'n rhaid cyfeirio ato i bennu gwerthoedd cyfraddau ardrethu annomestig (a elwir yn gyfraddau busnes) nesaf yng Nghymru, a drefnwyd ar gyfer 1 Ebrill 2023.

Felly bydd yr ailbrisiad yn seiliedig ar asesiad o werth ardrethol eiddo annomestig ar 1 Ebrill 2021.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cafodd ei osod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Bydd Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2) Llywodraeth y DU, os caiff ei ddeddfu, yn gohirio'r ailbrisiadau sydd i ddod o gyfraddau annomestig yng Nghymru a Lloegr hyd at 1 Ebrill 2023 (o 1 Ebrill 2022 mewn perthynas â Chymru).

Mewn datganiad ysgrifenedig ar 11 Awst 2020, nododd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd:

> *"Bydd gohirio'r cylch ailbrisio tan 2023 yn golygu y bydd y gwerthoedd ardrethol, y mae biliau ardrethi yn seiliedig arnynt, yn adlewyrchu effaith COVID-19 yn well. Bydd*

*y newid hefyd yn golygu y bydd y cylch ailbrisio nesaf yng Nghymru yn dod i rym yr un pryd ag yn Lloegr, gan sicrhau na fydd busnesau a thalwyr ardrethi eraill yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu â'r rhai mewn mannau eraill.*"

## Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.